YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

DYDD Mercher, 20 Mawrth 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd : G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol :
K. Evans – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod – 10:00yb – 10:10yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 IONAWR 2024

PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2024 yn gofnod cywir.

3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-

Ysgol Gynradd	**Penodiadau**
Brynsierfel (1 lle gwag - 1 enwebiad))	Mr. K. Rees
Dewi Sant (1 lle gwag - 1 enwebiad)	Miss. C. Mackerras
Llannon (1 lle gwag o 27 Mawrth, 2024)	Mrs. L Watkins
Penygaer (1 lle gwag - 1 enwebiad))	Y Cynghorydd A. Bragoli

Ysgol Uwchradd	**Penodiadau**
Coedcae (2 lle gwag o 27 Mawrth, 2024 – 2 enwebiadau)	Mrs. J. Sharpe Mr. N. Furneaux
Dyffryn Aman (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr. G.I. Lewis

Ysgol Arbennig	**Y Penodiad**
Heol Goffa (1 lle gawag – 1 enwebiad)	Mr. S. Greaney

AELOD O'R CABINET **DYDDIAD**